

# Datblygu darpariaeth chwarae a blynyddoedd cynnar mewn safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

**Pecyn cymorth**

## Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i'r canlynol am eu cymorth a'u cyfraniadau:

- Tîm Gofal Plant a Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- There and Back Again Gypsy & Traveller Awareness
- Travelling Ahead: Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Cymru i Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

ISBN: 978-1-914361-31-9


© Chwarae Cymru

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ar wahan i'r adnoddau a'r templedi, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

www.chwarae.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Am y pecyn cymorth hwn** | **4** |
| Ar gyfer pwy mae hwn? | 4 |
| Sut ddatblygwyd y pecyn cymorth hwn? | 4 |
| Beth mae wedi ei ddylunio i’w wneud? | 4 |
| Pam ddatblygwyd y pecyn cymorth hwn? | 5 |
| Defnyddio’r pecyn cymorth | 5 |
| **Adran 1: Cyflwyniad** | **7** |
| Gwerth chwarae | 7 |
| **Adran 2: Modelau i’w hystyried** | **8** |
| 1. Mannau chwarae cymunedol | 9 |
| 2. Darparu mannau dan do ar gyfer chwarae ar y safle | 10 |
| 3. Darpariaeth blynyddoedd cynnar | 11 |
| 4. Darpariaeth gwaith chwarae wedi ei staffio | 11 |
| 5. Annog integreiddio gyda darpariaeth chwarae lleol | 13 |
| 6. Cefnogi mannau chwarae hunan-adeiladu cymunedol | 14 |
| 7. Darpariaeth ar riniog y drws | 14 |
| **Adran 3: Adnoddau i’ch cynorthwyo** | **15** |
| Adnodd 1: Templed taflen hunanasesu | 16 |
| Adnodd 2: Cynnal dadansoddiad opsiynau | 20 |
| Adnodd 3: Dulliau cyfranogi ac ymgysylltu gyda’r plant | 24 |
| Adnodd 4: Archwiliadau chwarae | 25 |
| Adnodd 5: Gweithio gyda rhieni a theuluoedd | 26 |
| Adnodd 6: Gweithio gyda’r gymuned ehangach | 27 |
| Adnodd 7: Archwiliad sgiliau | 28 |
| Adnodd  8: Polisi chwarae safle | 29 |

# Am y pecyn cymorth hwn

## Ar gyfer pwy mae hwn?

Mae'r pecyn cymorth wedi ei ddylunio ar gyfer unrhyw un sy'n gyfrifol am, neu sydd ynghlwm â, rheoli neu ddatblygu safleoedd newydd, neu safleoedd sy'n bodoli eisoes, ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Gallai'r rhain gynnwys:

- adrannau a swyddogion cynllunio
- penseiri
- swyddogion cyswllt Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol
- rheolwyr ymgynghori a chymryd rhan
- rheolwyr a wardeiniaid safleoedd
- timau datblygu chwarae
- timau plismona yn y gymdogaeth
- Sipsiwn a Theithwyr.

Dylid defnyddio'r pecyn cymorth ar y cyd â chanllawiau – *Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr* Llywodraeth Cymru (sy'n cyfeirio hefyd at ardaloedd chwarae).

## Sut ddatblygwyd y pecyn cymorth hwn?

Mae hwn yn argraffiad wedi ei adolygu a'i ddiwygio o becyn cymorth blaenorol a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru a Travelling Ahead. Hysbyswyd y cyhoeddiad gwreiddiol gan ymgynghoriadau gyda Sipsiwn a Theithwyr ifanc. Fe wnaethon nhw bwysleisio'r pwysigrwydd y maent yn ei osod ar amser, lle a chaniatâd i chwarae. Tra bo byw ar safle'n golygu bod gan lawer o blant ac arddegwyr gyfeillion i chwarae gyda nhw, mae'r diffyg lle a chyfleusterau pwrpasol i chwarae'n broblem fynych a ddynodir gan y plant.

I hysbysu'r argraffiad cyntaf, fe wnaethom hefyd sefydlu ac ymgynghori gyda grŵp ffocws o ddarparwyr yn ystod y broses ddrafftio a defnyddio eu profiadau i ddatblygu'r modelau ac i fynd i'r afael â'r materion llosg pwysicaf. Yn ogystal, dynododd canfyddiadau o ymgynghoriadau ac arolygon bod gwasanaethau, fel cylchoedd chwarae a darpariaeth gwaith chwarae wedi ei staffio, yn gallu cefnogi integreiddio a delio gyda materion sy'n achosi camddealltwriaeth.

Mewn ymgysylltiad anffurfiol yn fwy diweddar, roedd rheswm cyffredin pam nad oedd safleoedd yn ateb anghenion teuluoedd yn cynnwys diffyg ardal chwarae. Mae plant wedi dynodi bod cyfleoedd i chwarae'n gyfyngedig oherwydd nad oes man dynodedig i chwarae yn agos i ble maent yn byw. Mae'r plant yn chwilio am ofodau eraill, yn cynnwys tir diffaith, ffyrdd amgylch y safle neu lonydd sy'n arwain at y safle. Mae'r plant yn adrodd bod peidio cael lle dynodedig, dim gerddi, traffig yn dod i mewn ac allan o'r safle, sbwriel a baw cŵn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i chwarae. Mae rhai cyfleoedd i chwarae'n cael eu cyfyngu oherwydd agosrwydd cerbydau wedi'u parcio a chartrefi.

Mae addasrwydd gofod sy'n bodoli eisoes a barn rhieni ac oedolion eraill yn effeithio ar y cyfleoedd i chwarae y gall plant gael mynediad iddynt. Bwriedir i'r pecyn cymorth hwn gynorthwyo cynllunwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Beth mae wedi ei ddylunio i'w wneud?

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth glir a chryno sy'n helpu i greu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys gwybodaeth y bwriedir iddo eich helpu i ddeall a mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder. Mae hefyd yn cynnwys templedi ac adnoddau cam wrth gam, ymarferol ar gyfer cyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â dileu'r rhwystrau i gael mynediad i gyfleoedd i chwarae a wynebir gan blant Sipsiwn a Theithwyr.

Mae'r mwyafrif o bobl yn derbyn bod gan lawer o blant Sipsiwn a Theithwyr rywfaint o gyfleoedd i chwarae'r tu allan. Maent yn adrodd eu bod yn mwynhau gweithgareddau fel adeiladu cuddfannau, mynd ar gefn beics, creu siglenni coed, dringo coed a chwarae cuddio o amgylch y safle.

Bwriedir i'r pecyn cymorth fynd i'r afael â'r rhwystrau ffisegol i ofod chwarae dynodedig tra hefyd yn darparu cyfle i ystyried cynnig mathau eraill o chwarae, fel chwarae creadigol a llawn dychymyg.

## Pam ddatblygwyd y pecyn cymorth hwn?

Mae'r pecyn cymorth wedi ei ddatblygu i helpu awdurdodau lleol i ymateb i ddyletswyddau digonolrwydd cyfleoedd chwarae statudol. Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd.

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae'n rhan o agenda Llywodraeth Cymru yn erbyn tlodi, sy'n cydnabod y gall plant ddioddef o dlodi profiad, cyfle ac uchelgais, ac y gall y math hwn o dlodi effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar draws Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau statudol, *Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae*, ar gyfer awdurdodau lleol ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd. Bydd awdurdodau lleol yn cwblhau Asesiadau Digonolrwydd Chwarae bob tair blynedd. Fel rhan o'r rhain, mae rhaid i awdurdodau lleol asesu i ba raddau y mae anghenion chwarae plant Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu deall a'u darparu ar eu cyfer.

## Defnyddio'r pecyn cymorth

Mae'r pecyn cymorth wedi ei ddylunio i'w ddefnyddio wrth ystyried cyfleoedd ar gyfer plant sy'n byw ar safleoedd.

Mae'r pecyn cymorth yn cydnabod treftadaeth min ffordd Sipsiwn a Theithwyr. Mae aros ar fin y ffordd yn galluogi teuluoedd i ymdrwytho yn eu ffordd o fyw hanesyddol a diwylliannol. Mae'n darparu cyfleoedd i blant ddeall arferion nomadaidd a dysgu mwy am sgiliau a chyfraniadau eu treftadaeth.

Mae'r dreftadaeth hon yn cynnwys traddodiadau unigryw a phwysig, a sgiliau fel archwilio'r ardal am adnoddau, tirlunio, a gwaith amaethyddol a modurol. Mae profiadau min ffordd i'r plant yn amddiffyn eu diwylliant amrywiol, gan ddarparu sgiliau uniongyrchol a thymor hir i'r plant.

Mae tair adran i'r pecyn cymorth:

1. **Pwysigrwydd chwarae** – mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am y buddiannau uniongyrchol a gohiriedig y mae mynediad i chwarae'n ei gynnig i blant. Mae hefyd yn cynnwys disgrifiad o amgylchedd chwarae cyfoethog, sy'n diffinio'r nodweddion sydd eu hangen i helpu plant i wneud y mwyaf o'u cyfleoedd i chwarae.
2. **Modelau darpariaeth** – mae'r adran hon yn darparu'r sail resymegol, ac yn dynodi buddiannau a nodweddion allweddol modelau llwyddiannus o ddarpariaeth chwarae.
3. **Adnoddau defnyddiol** – mae'r adran hon yn cynnwys casgliad o adnoddau i archwilio, asesu a chynllunio ar gyfer chwarae, ac mae'n cynnwys syniadau ar gyfer ymgysylltu gyda phlant a rheini.



**Mae'r pecyn cymorth hwn yn ategu gwybodaeth sydd ar gael mewn cyhoeddiadau eraill gan Chwarae Cymru:**

***Datblygu a rheoli mannau chwarae*** sy'n cwmpasu dwy brif thema:

- Dylunio – sy'n canolbwyntio ar ddylunio mannau chwarae newydd, yn cynnwys templedi sy'n ymwneud â:
    - chyfranogaeth gyda phlant
    - caffael
    - dylunio
- Rheoli – sy'n canolbwyntio ar sut i reoli man chwarae sy'n bodoli eisoes, neu sydd newydd ei greu, yn cynnwys gwybodaeth a thempledi sy'n ymwneud â:
    - pholisi a gweithdrefnau rheoli risg
    - cynnal a chadw ac archwilio
    - ymgysylltu gyda phlant
    - asesu mannau chwarae.




***Creu mannau chwarae hygyrch*** sy'n darparu templedi ac adnoddau cam wrth gam, ymarferol ar gyfer cyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â chwalu'r rhwystrau sy'n wynebu plant anabl a'u teuluoedd wrth geisio cael mynediad i fannau chwarae. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys gwybodaeth a thempledi sy'n ymwneud â:

- hunanasesu – dylunio a darparu man chwarae hygyrch
- ystyriaethau dylunio rhesymol
- asesiad mynediad man chwarae.




***Chwarae y tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar*** sy'n darparu gwybodaeth glir a chryno i leoliadau ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar i gynyddu cyfleoedd i blant yn eu gofal i chwarae a threulio mwy o amser y tu allan. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys gwybodaeth a thempledi sy'n ymwneud â:

- asesu gofod awyr agored mewn lleoliadau
- ymgysylltu gyda rhieni
- ymgysylltu gyda phlant ifanc
- datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff.



# Adran 1: Cyflwyniad

Mae gan blant hawl i chwarae, fel y cydnabyddir yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Fel arwydd o'r pwysigrwydd y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei osod ar chwarae plant, mae wedi cyhoeddi Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31. Mae'r ddogfen hon – Sylw Cyffredinol rhif 17 – yn dynodi bod chwarae'n cynnwys nodweddion allweddol sef hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a bod yn anghynhyrchiol.

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. Pan maen nhw'n chwarae, mae plant yn cyfrannu at eu lles uniongyrchol ac at eu datblygiad eu hunain.

Ceir casgliad hirsefydlog o dystiolaeth gadarn sy'n dangos y cyfraniad y gall chwarae, yn enwedig chwarae a drefnir yn bersonol, ei wneud i les uniongyrchol a thymor hir, iechyd corfforol, iechyd meddwl a gwytnwch plant. Mae amrywiol astudiaethau wedi dod i'r casgliad:

- **Mae chwarae'n cynorthwyo gyda chymdeithasoli:** pan maen nhw'n chwarae, mae plant yn rhyngweithio gydag eraill, yn datblygu cyfeillgarwch ac ymlyniad gyda'u cyfoedion, yn delio gyda gwrthdaro, ac yn dysgu parch a goddefgarwch.
- **Mae chwarae'n cynyddu gwytnwch:** mae chwarae'n hybu gallu plant i reoleiddio eu hemosiynau, hyder, creadigedd, sgiliau datrys problemau a dyfalbarhad, gan eu galluogi i ymdopi gyda straen a heriau drwy gydol eu bywydau.
- **Mae chwarae'n hanfodol ar gyfer iechyd a lles da:** mae bod yn actif trwy chwarae yn helpu plant yn gorfforol ac yn emosiynol, gan gyfrannu at eu hiechyd a'u hapusrwydd.
- **Mae chwarae'n cynorthwyo plant i deimlo'n rhan o'u cymdogaethau a'u cymunedau ehangach:** mae chwarae'n caniatáu i blant ddysgu am y byd o'u hamgylch, creu cysylltiadau, a datblygu ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn.
- **Mae chwarae'n cefnogi dysgu a datblygu:** gan adeiladu strwythurau'r ymennydd a sgiliau fel meddwl beirniadol.

## Gwerth chwarae

Mae'r term gwerth chwarae'n disgrifio amrywiaeth ac ansawdd y cyfleoedd a'r profiadau chwarae a gynigir gan amgylchedd chwarae. Fe'i defnyddir hefyd i ddisgrifio'r gwerth y mae gofod, neu ddarn o offer, yn ei gynnig i blant i'w helpu i ehangu eu chwarae.

Mae gofod sy'n gyfoeth o werth chwarae'n creu cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o brofiadau chwarae corfforol, cymdeithasol a synhwyraidd. Mae'n cynnig cyfle i blant ac arddegwyr ryngweithio'n rhydd gyda neu i brofi'r canlynol:

- **Plant ac arddegwyr eraill** – gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, i drafod, i gydweithio, i ddadlau a datrys anghydfodau
- **Y byd naturiol** – y tywydd, y tymhorau, llwyni, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid a mwd
- **Rhannau rhydd** – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu
- **Yr elfennau naturiol** – daear, awyr, tân a dŵr
- **Her a chymryd risg** – yn gorfforol ac yn emosiynol
- **Chwarae gyda hunaniaeth** – chwarae rôl a gwisgo i fyny
- **Symud** – rhedeg, neidio, dringo, cydbwyso a rholio
- **Chwarae gwyllt** – chwarae ymladd
- **Y synhwyrau** – synau, blasau, gweadau, aroglau a golygfeydd.

Mae gofodau da i chwarae mewn cymuned yn dangos i'r bobl sy'n byw yno bod chwarae'n bwysig. Mae'r mannau chwarae'n creu hwb ar gyfer cymuned, gan gynnig cyfleoedd i oedolion ac arddegwyr ymwneud a chymdeithasu gyda'i gilydd.

Mae plant a theuluoedd yn gwerthfawrogi mannau chwarae o safon, y cysylltiadau y maent yn eu creu trwyddynt a'r cyfraniad y maent yn eu gwneud i gymunedau.

# Adran 2: Modelau i'w hystyried

## Modelau o ddarpariaeth chwarae

1. Mannau chwarae cymunedol
2. Darparu mannau dan do ar gyfer chwarae ar y safle
3. Darpariaeth blynyddoedd cynnar
4. Darpariaeth gwaith chwarae wedi ei staffio
5. Annog integreiddio gyda darpariaeth chwarae lleol
6. Cefnogi mannau chwarae hunan-adeiladu cymunedol
7. Darpariaeth ar riniog y drws

Mae'r rhan hwn o'r pecyn cymorth yn canolbwyntio ar fodelau o ddarpariaeth chwarae. Fe'i datblygwyd gan ddefnyddio astudiaethau achos o ddarpariaeth o bob cwr o Gymru. Mae'n darparu'r sail resymegol, ac yn dynodi buddiannau a nodweddion allweddol modelau darpariaeth llwyddiannus.

Bydd y mwyafrif o blant yn chwarae heb angen am ymyrraeth oedolion, hyd yn oed yn yr amgylcheddau mwyaf diffaith, ond bydd amgylchedd sy'n gyfoeth o bosibiliadau'n eu galluogi i wneud y gorau o'u cyfleoedd i chwarae. Bydd rhai plant angen oedolion cefnogol a chwmni plant eraill i elwa o'r amgylchedd o'u hamgylch.

Am amrywiol resymau, mae'n bosibl na fydd plant ac arddegwyr ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn mynychu addysg yn llawn amser, ond maent yn awyddus i ddysgu. Mae darpariaeth gwaith chwarae a'r blynyddoedd cynnar wedi ehangu rhagolygon i'r dyfodol, trwy ddarparu cyfleoedd i arddegwyr wirfoddoli, ac ennill profiad gwaith gofal plant a chwblhau hyfforddiant.

Mae'n gyffredin i blant hynaf teuluoedd i fod wedi derbyn cyfrifoldeb o oedran ifanc. Mae darparu cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu'n ein galluogi i ateb anghenion chwarae a hamdden arddegwyr.

Oherwydd natur cartrefi Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd, mae lle i storio'n gyfyngedig ac nid oes modd bob amser i deuluoedd ddarparu ystod eang o adnoddau i gefnogi chwarae plant. Yn aml, mae safleoedd yn orlawn neu yn sefyll mewn, neu wedi eu hamgylchynu gan, amgylcheddau anaddas a pheryglus.

Efallai nad oes gofod awyr agored wedi ei leoli ger y plotiau teuluol. Yn aml, nid yw plant ac arddegwyr yn byw yn agos i gyfleusterau chwarae – mae trafnidiaeth, mynediad a chynhwysiant yn faterion o bwys i lawer o blant ac arddegwyr Sipsiwn a Theithwyr.

Ceir gwybodaeth am ardaloedd chwarae gydag offer ym mhecynnau cymorth Chwarae Cymru a restrir ar dudalen 6.

## 1. Mannau chwarae cymunedol

Mae plant a theuluoedd yn gwerthfawrogi mannau chwarae o safon, y cysylltiadau y byddant yn eu creu trwyddynt a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i gymunedau. Gall offer chwarae gynnig profiadau a rennir a gall plant sydd â gwahanol anghenion chwarae gyda'i gilydd mewn mannau chwarae sydd wedi'u dylunio'n dda. Mae rhai darnau o offer, fel llochesi, yn darparu lle ar gyfer cymdeithasu, tra'n cydnabod cyfyngiadau diffyg argaeledd gofodau dan do a thywydd gwael.

Mae rhannau rhydd yn ddeunyddiau y gellir eu defnyddio i chwarae, heb restr benodol o gyfarwyddiadau y gellir eu defnyddio ar eu pen eu hunain neu eu cyfuno â deunyddiau eraill. Ac felly, o ganlyniad, gellir defnyddio rhannau rhydd fel y mynno'r plant ac y gellir eu haddasu a'u trin a'u trafod mewn nifer o ffyrdd. Mae enghraifftiau o rannau rhydd yn cynnwys: papur, cerrig, brigau, dŵr, tywod, dail, plu, offer, hoelion, bocsys, defnydd, rhaffau, pren, sosbenni, anifeiliaid, planhigion, metal, clai, mwd, byrddau, cadeiriau, blancedi – popeth ac unrhyw beth y gellir ei symud neu ei drin a'i drafod fel rhan o chwarae.

Er mwyn gwneud y gorau o ofod chwarae, mae angen i blant allu ei addasu a'i siapio i gyflawni eu hanghenion chwarae ac mae angen iddo newid dros amser i darparu cyfleoedd newydd i chwarae. Bydd ychwanegu arwynebau rhydd, fel tywod neu risgl, cynnwys dŵr, a choed a llwyni yn darparu cyflenwad o rannau rhydd sy'n newid gyda'r tymhorau, y bydd y plant yn eu defnyddio mewn amrywiol ffyrdd dyfeisgar.

Bydd mannau chwarae gydag offer sefydlog yn aml yn galw am ôl-troed mawr ar gyfer pob darn unigol o offer. Er mwyn delio gyda hyn, yn aml gwelir symud tuag at hybu defnyddio amgylcheddau a nodweddion naturiol. Mae rhai trigolion wedi mynegi pryderon bod gofod agored yn cael ei gymryd trosodd, ar gyfer storio cerbydau modur, sgrap neu geffylau. Efallai y byddai rhywfaint o offer sefydlog, wedi ei gydbwyso gyda nodweddion naturiol o amgylch yr ardal, yn ateb y pryderon hyn.

**Nodweddion allweddol mannau chwarae da neu bethau i'w hystyried:**

- Mae'r gofodau wedi'u dylunio gan ystyried anghenion a nodweddion y gymuned leol, ac wedi dynodi'r lleoliad a'r ystod debygol o ddefnydd a defnyddwyr.
- Mae gan y gofodau gymeriad lleol amlwg o ran eu dyluniad penodol, y deunyddiau a ddefnyddir a'r nodweddion gaiff eu cynnwys.
- Mae nodweddion naturiol y gofod, fel coed a phyllau dŵr naturiol sydd yno eisoes, yn cael eu parchu a'u hintegreiddio.
- Mae'r gofod a'r cyd-destun cyflawn cyn bwysiced â nodweddion chwarae unigol wrth greu man chwarae llwyddiannus.
- Mae'r gofodau'n cynnwys deunyddiau chwarae a nodweddion chwarae sy'n anghyfarwyddol ac sydd, o ganlyniad, yn annog dychmygu ac yn awgrymu nifer o wahanol ffyrdd o chwarae ynddynt a gyda nhw.
- Nid yw'r gofodau'n dibynnu'n llwyr ar offer chwarae gwneuthuredig ar gyfer y cyfleoedd chwarae a gynigir. Mae'r mannau chwarae'n defnyddio offer gwneuthuredig i gyfoethogi'r hyn sydd ar gael.
- Mae dyluniad y gofod yn sicrhau pan ddefnyddir offer chwarae, ei fod wedi ei integreiddio gydag ac yn cyfannu nodweddion eraill y safle.
- Mae lleoliad yr ardal chwarae draw oddi wrth brif lwybr traffig y safle.
- Mae'r gofodau'n ymgorffori cyfleoedd i blant wynebu neu greu her a risg.
- Mae anghenion trigolion yn cael eu hystyried wrth gynllunio a gosod nodweddion chwarae.

## 2. Darparu mannau dan do ar gyfer chwarae ar y safle

Wrth gynllunio cyfleusterau cymunedol fel rhan o ddylunio neu adnewyddu safle, mae'n bwysig ystyried sut allai plant ac arddegwyr ddefnyddio'r gofod. Caiff mannau chwarae dan do sydd wedi eu dylunio'n dda eu cynllunio fel y gellir eu defnyddio mewn modd hyblyg a'u bod yn cynnig ystod briodol o gyfleoedd. Mae darpariaeth cyfleusterau cymunedol yn cefnogi ymgysylltiad cymunedol. Mewn llawer o gymunedau, gall darpariaeth gwaith chwarae a blynyddoedd cynnar da weithredu fel sbringfwrdd ar gyfer gwasanaethau eraill a chyfranogiad cymunedol.

Mae gallu cael mynediad i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o safon, mannau chwarae wedi eu dylunio'n dda sydd ag adnoddau digonol a darpariaeth gwaith chwarae wedi ei staffio, yn cynnig buddiannau helaeth i blant, rhieni a'r gymuned.

**Nodweddion allweddol mannau chwarae dan do sydd wedi'u dylunio'n dda:**

- Mae'r gofodau'n darparu profiadau cyfoethog – gall y plant archwilio, arbrofi a dysgu trwy brofiad uniongyrchol.
- Mae'r gofodau'n darparu ymdeimlad o berthyn – mae plant ac arddegwyr yn gwerthfawrogi bod yn agos at bobl y maent yn eu hadnabod, cael gwrthrychau cyfarwydd a chyfforddus, a bod mewn lleoliad sydd â hanes personol iddyn nhw.
- Mae'r gofodau'n cynnwys adnoddau sy'n briodol, wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n hygyrch i bob plentyn.
- Mae'r gofodau wedi eu cynllunio fel y gellir eu defnyddio mewn modd hyblyg a darperir ystod amrywiol o gyfleoedd i chwarae a chymdeithasu.



## 3. Darpariaeth blynyddoedd cynnar

Mae'r gefnogaeth y gall teuluoedd gael mynediad iddo trwy ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn arbennig o werthfawr wrth ateb anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Mae ennill profiadau blynyddoedd cynnar o safon yn helpu plant i setlo i lawr mewn amgylcheddau newydd. Mae hyn yn darparu cymorth ar gyfer y cyfnod pontio i fynd i'r ysgol, gan ganiatáu i'r plant ddeall y 'rheolau' cymdeithasol pan fyddant y tu allan i'r uned deuluol ac i ffurfio perthynas gydag oedolion newydd a'u cyfoedion. Mae chwarae'n caniatáu i blant fwynhau profiadau heriol, archwilio a darganfod drostynt eu hunain a thrwy hynny dyfu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae chwarae'n bwysig er mwyn i blant ennill hyder a hunan-barch. Mae'r cyfleoedd i chwarae mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar yn benagored ac anogir y plant i ddewis beth i'w chwarae a gyda phwy. Bydd lleoliadau chwarae blynyddoedd cynnar da yn cefnogi plant i fod â'r hyder i roi tro ar bethau newydd a datblygu diddordeb mewn dysgu. Mae chwarae yn y lleoliadau hyn yn hybu sgiliau fel creadigedd, datrys problemau a meddwl critigol.

Bydd darparu amgylchedd awyr agored cyfoethog yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu a chynnydd mewn chwarae corfforol. Mae staff mewn lleoliadau fel y rhain wedi sylwi ar gynnydd mewn cymdeithasoli a llai o ymladdgarwch. Bydd staff gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn llunio perythnas gadarnhaol gyda rhieni, a bydd hyn yn helpu teuluoedd i ennill hyder a chael mynediad i wasanaethau eraill y maen nhw a'u plant eu hangen. Mae ysgol fforest yn fodel y gellir ei ddarparu'n dda iawn ar safleoedd, yn enwedig ble nad oes adeilad pwrpasol ar gael.

**Nodweddion allweddol darpariaeth blynyddoedd cynnar llwyddiannus neu bethau i'w hystyried:**

- Cyflogir gweithwyr proffesiynol cymwysedig, angerddol a brwdfrydig.
- Cynhelir arsylwadau ar bob plentyn er mwyn sicrhau eu hanghenion unigol.
- Mae'r staff yn deall yr angen iddynt feithrin a chefnogi anghenion pob plentyn ac i helpu rhieni a phlant i wynebu'r ymwahaniad dros dro fydd yn digwydd pan fydd plant yn mynychu'r lleoliad.
- Bydd y staff yn gweithio'n agos gydag amrywiol weithwyr proffesiynol yn cynnwys: ymwelwyr iechyd, therapyddion iaith a lleferydd a thîm cynghori Dechrau'n Deg.
- Creëir cysylltiadau gyda'r ysgolion lleol a chefnogir cyfnodau pontio er mwyn sicrhau bod plant yn ymuno ag addysg prif ffrwd yn y cyfnod meithrin/derbyn.
- Cynigir ystod o gyfleoedd i chwarae a gwneir y defnydd gorau posibl o unrhyw ofod awyr agored.
- Mae'r staff wedi ennill ymwybyddiaeth ddiwylliannol dda trwy ddysgu'n weithredol oddi wrth deuluoedd.

## 4. Darpariaeth gwaith chwarae wedi ei staffio

Bydd gweithwyr chwarae'n creu cyfleoedd a mannau ble y gall plant ac arddegwyr chwarae'n rhydd a hyderus. Mannau ble y gallant ddod ar draws ystod eang o gyfleoedd a phosibiliadau – ble fo'r oedolion sy'n bresennol yn deall natur a phwysigrwydd pob agwedd ar chwarae plant ac yn gweithio i'w gefnogi.

Mae gweithwyr chwarae'n ystyried plant ac arddegwyr fel unigolion cymwys. Maent yn deall yr angen i blant wynebu a chreu ansicrwydd a her fel rhan o'u chwarae. Fydd gweithwyr chwarae ddim yn cyfarwyddo nac yn trefnu'r chwarae, maent wedi eu hyfforddi i farnu pryd, neu os, y dylent ymyrryd. Bydd gweithwyr chwarae'n galluogi plant i ehangu eu chwarae eu hunain a byddant yn gwarchod a chyfoethogi'r gofod chwarae fel ei fod yn amgylchedd chwarae cyfoethog. Bydd gweithwyr chwarae'n

sicrhau bod y gofod chwarae'n gynhwysol drwy gefnogi pob plentyn i wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael yn eu ffordd eu hunain.

### Gweithwyr chwarae allgymorth ar y safle

Caiff prosiectau gwaith chwarae peripatetig eu staffio gan dîm bychan o weithwyr chwarae hyfforddedig, fydd yn ymweld â'r safle unwaith neu ddwywaith yr wythnos am gwpwl o oriau. Byddant yn meddu ar syniadau ac adnoddau a byddant yn gweithio i helpu'r plant i greu mannau i chwarae yn eu hardal leol, gan dawelu meddyliau rhieni ei bod yn ddiogel i'r plant gymryd rhan mewn sesiynau chwarae. Gall y sesiynau hyn gael eu cynnal yn yr awyr agored neu mewn cyfleusterau dan do, ble fo'r rhain ar gael. Bydd gweithwyr chwarae'n cynnig ystod o gyfleoedd na fydd gan y plant fynediad iddynt, efallai, fel chwarae creadigol, poitshlyd a synhwyraidd, yn ogystal â chyfleoedd i gymdeithasu.

### Darpariaeth symudol sy'n ymweld â'r safle

Mae gwasanaeth chwarae symudol yn cefnogi trosglwyddo cyfleoedd ac adnoddau chwarae i blant mewn cymunedau sydd heb unrhyw adnoddau chwarae neu ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio sy'n lleol a hygyrch. Mae'n darparu gofod 'dan do' sy'n cynnig ystod o gyfleoedd ar gyfer chwarae'r tu allan a chymdeithasu fydd, efallai, ddim ar gael i blant ac arddegwyr oherwydd natur eu llety. Bydd gwasanaethau chwarae symudol yn teithio i'r ardaloedd hyn i gyflawni anghenion chwarae a chymdeithasoli plant a theuluoedd.

Fel arfer, caiff y ddarpariaeth chwarae ei hamserlennu fel bod y plant a'u teuluoedd yn gwybod pryd a ble y bydd y gweithwyr chwarae a'r adnoddau ar gael.

Yn ogystal, gall darpariaeth chwarae symudol:

- gynnig gofod ar gyfer ymgynghori gyda'r plant ar draws nifer o gymunedau
- cynnig man croesawus ble y gall teuluoedd ganfod sut i gefnogi chwarae eu plant
- darparu llyfrgell deganau neu storfa sgrap.

Un enghraifft o chwarae symudol yw'r bws chwarae. Yn draddodiadol, roedd bysus chwarae'n 'adeiladau cymunedol ar olwynion'. Gall bws chwarae weithredu fel crèche, meithrinfa neu grŵp rhiant a phlentyn, canolfan galw heibio gyda'r nos i ieuenctid, gwasanaeth chwarae y tu allan i'r ysgol a llawer mwy. Er y gwelwyd dirywiad mewn gwasanaethau bysus chwarae, mae gwasanaethau symudol eraill y gellir eu defnyddio ar gyfer chwarae trwy weithio partneriaeth gyda thimau datblygu chwarae lleol.

**Nodweddion allweddol darpariaeth gwaith chwarae symudol ac allgymorth wedi ei staffio llwyddiannus neu bethau i'w hystyried:**

- Mae'r gweithwyr chwarae'n hyblyg ac yn gallu ymdopi gyda natur gyfnewidiol y safle.
- Dylai'r gweithwyr chwarae feddu ar ddealltwriaeth dda o ddemograffeg y safle.
- Dylai'r gweithwyr chwarae gysylltu gyda darparwyr gwasanaethau eraill a adnabyddir ar y safle eisoes, er mwyn cael eu cyflwyno i aelodau o'r gymuned.
- Dylai'r gweithwyr chwarae fod yn gwbl eglur ynghylch natur y ddarpariaeth a'r modd y gall rhieni ei gefnogi, er mwyn helpu i leddfu pryderon rhieni.
- Bydd y gweithwyr chwarae'n darparu amrywiaeth eang o brofiadau chwarae sy'n cynnig profiadau newydd a gwahanol.
- Bydd y gweithwyr chwarae'n darparu cefnogaeth i herio negyddoldeb, os bydd y plant ac arddegwyr am fynegi eu hunain mewn modd sy'n symud oddi wrth ffyrdd ystrydebol o chwarae.
- Mae'r staff wedi ennill dealltwriaeth ddiwylliannol dda trwy ddysgu'n weithredol oddi wrth y teuluoedd. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth gref o draddodiadau'r gymuned a'r safle.
- Mae'n hyblyg ac yn creu gwasanaeth wedi ei deilwra'n arbennig er mwyn ymateb i anghenion chwarae plant mewn gwahanol gymunedau.
- Mae'n cyrraedd cymunedau anghysbell, difreintiedig sydd â diffyg adnoddau.
- Gall beilota prosiectau mewn ystod o wahanol ardaloedd a gyda gwahanol grwpiau o blant.
- Bydd anghenion y trigolion yn cael eu hystyried wrth gynllunio a throsglwyddo darpariaeth gwaith chwarae allgymorth.



## 5. Annog integreiddio gyda darpariaeth chwarae lleol

Weithiau, mae'n bosibl gweithio gyda gwasanaethau lleol er mwyn helpu i integreiddio'r rhieni a'u plant i mewn i'r gymuned leol. Yn aml bydd hyn yn canolbwyntio ar iechyd a lles a chwarae, ond mae hefyd yn cefnogi teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr i archwilio eu diwylliant eu hunain a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

'Dyw hi ddim yn anghyffredin i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr deimlo eu bod wedi ymddieithrio oddi wrth y gymuned leol. Yn aml, gall y plant deimlo wedi eu hynysu a bod eraill yn gwahaniaethu'n eu herbyn. Pan fo timau gwaith chwarae wedi llwyddo i gefnogi integreiddio, maent wedi dechrau trwy weithio ar safleoedd neu efallai fynd â'r plant ar deithiau wedi eu trefnu i atyniadau lleol. Yn aml, bydd prosiectau integreiddio llwyddiannus yn dechrau trwy drefnu digwyddiadau ar gyfer rhieni a phlant bach, gan fod hyn yn helpu i gychwyn trafodaethau am bwysigrwydd addysg ac integreiddio.

Mae'r dull hwn yn helpu gweithwyr chwarae i ennill ymddiriedaeth a pharch y rhieni ac mae'n eu cefnogi i awgrymu y gallai'r plant a'r arddegwyr elwa o ddefnyddio cyfleusterau cymunedol lleol.

**Nodweddion allweddol integreiddio llwyddiannus neu bethau i'w hystyried:**

- Mae'r gweithwyr chwarae wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr ac maent yn meddu ar ddealltwriaeth gref o draddodiadau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.
- Bydd y gweithwyr chwarae'n cysylltu gyda darparwyr gwasanaethau eraill a adnabyddir ar y safle eisoes, er mwyn cael eu cyflwyno i aelodau o'r gymuned.
- Mae'r gweithwyr chwarae'n gwbl eglur am natur y ddarpariaeth a'r modd y gall rhieni ei gefnogi, er mwyn helpu i leddfu pryderon rhieni.
- Bydd y gweithwyr chwarae'n ystyried trefnu ymweliadau i ddarpariaeth ar gyfer rhieni cyn trefnu sesiynau ar gyfer y plant.
- Caiff unrhyw faterion yn ymwneud â chludiant eu dynodi a'u rhoi mewn trefn cyn i'r broses integreiddio ddechrau.
- Mae'r gweithwyr chwarae'n deall bod integreiddio'n cymryd amser a bydd angen iddynt fod yn ymwybodol y gall hyn fod yn heriol i bob plentyn.

## 6. Cefnogi mannau chwarae hunan-adeiladu cymunedol

Caiff mannau chwarae hunan-adeiladu cymunedol eu datblygu, eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw gan bobl leol i ateb anghenion eu cymuned.

Gall datblygu man chwarae sy'n cynnwys defnyddio arwynebau ac offer gwneuthuredig fod yn broses gostus ond yn aml, gyda'r arweiniad cywir, mae ystod o amrywiol sgiliau'n bodoli eisoes mewn cymunedau y gellir eu defnyddio i greu mannau chwarae o safon ac i sicrhau bod arian ac adnoddau'n mynd ymhellach. Ar yr un pryd, gall gweithio gyda'n gilydd ar fan chwarae feithrin ymdeimlad o berchnogaeth a chydlyniant cymunedol.

Er bod arweiniad i'w gael ar arwynebau diogel ac offer y gellir eu defnyddio mewn mannau chwarae, caiff ei gamddeall yn aml ac os yw llywio eich ffordd trwy fiwrocratiaeth yn profi i fod yn anodd, mae'n werth ceisio cyngor proffesiynol. Yn ogystal, nid oes rhaid i fannau chwarae hunan-adeiladu cymunedol gael eu hadeiladu'n llwyr gan y gymuned – bydd modd cael cymorth allanol gyda rhai elfennau o'r broses ddylunio ac adeiladu.

**Nodweddion allweddol prosiectau hunan-adeiladu cymunedol llwyddiannus:**

- Mae staff sy'n cynorthwyo gyda'r fenter wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr.
- Cefnogir diwylliant o gydlyniant cymunedol.
- Ceir ymateb i angen lleol.
- Defnyddir sgiliau ac adnoddau lleol.
- Cefnogir rhannu sgiliau a chynyddu sgiliau.



## 7. Darpariaeth ar riniog y drws

Mae rhieni wedi adrodd y byddai cael lle penodedig i chwarae wrth ymyl eu plotiau yn eu helpu i gynnig cyfleoedd i'w plant chwarae.

**Nodweddion allweddol gofod chwarae ar blotiau:**

- Llecyn glaswelltog sych, cymharol wastad.
- Sied neu uned storio ar gyfer offer.
- Nodweddion sy'n caniatáu archwilio ac ymddygiad chwareus:
  - cerrig mawr/boncyffion ar gyfer cydbwyso a dringo
  - plannu ar gyfer nodweddion synhwyraidd a newidiadau tymhorol
  - modelu'r dirwedd.

# Adran 3: Adnoddau i'ch cynorthwyo

## Adnoddau

1. Templed taflen hunanasesu
2. Cynnal dadansoddiad opsiynau
3. Dulliau cyfranogi ac ymgysylltu gyda'r plant
4. Archwiliadau chwarae
5. Gweithio gyda rhieni a theuluoedd
6. Gweithio gyda'r gymuned ehangach
7. Archwiliad sgiliau
8. Polisi chwarae safle

**Mae'r rhan hwn o'r pecyn cymorth wedi ei baratoi i'n cynorthwyo i ystyried ffyrdd y gellir darparu amser, lle a chaniatâd i hybu chwarae a ddewisir o wirfodd fel rhan o ddatblygu ac adnewyddu safle. Mae'n darparu casgliad o adnoddau amrywiol i gynorthwyo gyda'r broses.**



# Adnodd 1: Templed taflen hunanasesu

Mae’r templed taflen hunanasesu yn caniatáu ichi ystyried i ba raddau y mae’r safle’n ymateb i ystod o nodweddion sy’n helpu i ddarparu cyfleoedd i chwarae.

- Mae’r golofn Nodwedd yn amlinellu ystod o griteria i’w hystyried ar gyfer darparu chwarae.
- Mae’r golofn Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda yn ein galluogi i dystio i gryfderau ein darpariaeth a rhestru tystiolaeth ac enghreifftiau.
- Mae’r golofn Yr hyn yr hoffem ei wneud yn well yn ein galluogi i egluro’r meysydd ble nad yw’r cyfleoedd neu’r ddarpariaeth yn cyflawni’r criteria’n llawn.
- Dylid defnyddio’r golofn Camau gweithredu i ddangos y camau gweithredu y bwriedir eu cymryd i gywiro diffygion.

| | |
|---|---|
| **Disgrifiwch y safle, yn cynnwys oedrannau’r plant** | |

| Nodwedd | Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda/cyfleoedd | Yr hyn yr hoffem ei wneud yn well/heriau | Camau gweithredu |
|---|---|---|---|
| Gweledigaeth gytûn am bwysigrwydd chwarae | | | |
| Amgylchedd ble mae chwarae plant yn ddigon rhydd o wastraff, llygredd, traffig a pheryglon ffisegol eraill | | | |
| Mae amser hamdden ar gael, yn rhydd o alwadau eraill | | | |
| Mae’r ddarpariaeth yn caniatáu rhyddid rhag eithrio cymdeithasol, rhagfarn neu wahaniaethu | | | |
| Lle a chyfleoedd i chwarae’r tu allan mewn amgylchedd ffisegol amrywiol a heriol, gyda mynediad rhwydd i oedolion cefnogol | | | |
| Mae’r ardal awyr agored yn amrywiol a diddorol | | | |

| Nodwedd | Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda/cyfleoedd | Yr hyn yr hoffem ei wneud yn well/heriau | Camau gweithredu |
|---|---|---|---|
| Mae plant o wahanol oedrannau’n gallu chwarae a chymdeithasu gyda’i gilydd | | | |
| Mae cyfleoedd graddedig ar gyfer cymryd risg – a hynny’n gorfforol ac yn emosiynol | | | |
| Cyfleoedd i brofi a rhyngweithio a chwarae mewn amgylcheddau naturiol a gyda anifeiliaid | | | |
| Cyfleoedd i archwilio a deall treftadaeth ddiwylliannol a chelfyddydol eu cymuned, i gyfranogi ynddo, ei greu a’i siapio | | | |
| Gall y plant chwarae gyda’r pedair elfen – daear, awyr, tân a dŵr | | | |
| Mae’r plant yn cael cyfle i brofi ysgogi’r synhwyrau | | | |

| Nodwedd | Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda/cyfleoedd | Yr hyn yr hoffem ei wneud yn well/heriau | Camau gweithredu |
|---|---|---|---|
| Rhieni’n cydnabod gwerth chwarae | | | |
| Staff y safle’n cydnabod gwerth chwarae | | | |
| Oedolion eraill yn cydnabod gwerth chwarae | | | |
| Mae’r plant yn gallu ymweld â pharciau neu fannau eraill o ddiddordeb sydd gerllaw | | | |

# Adnodd 2: Cynnal dadansoddiad opsiynau

Gall defnyddio templed dadansoddiad opsiynau helpu cynllunwyr i ddewis y model a’r agwedd orau i’w mabwysiadu er mwyn darparu cyfleoedd chwarae da ar gyfer plant ac arddegwyr.

## Templed dadansoddiad opsiynau

| Opsiwn: Datblygu darpariaeth wedi ei staffio ar y safle | | | |
|---|---|---|---|
| **Materion i’w hystyried** | **Manteision (+1)** | **Anfanteision (-2)** | **Cyfanswm** |
| Mae yna adran neu sefydliad lleol all ddarparu gweithwyr chwarae medrus sy’n ymwybodol o’r diwylliant | | | |
| Byddai rhieni’n elwa o brosiect gwaith chwarae i’w helpu i gefnogi chwarae plant | | | |
| Byddai’r plant yn elwa o bresenoldeb oedolion sensitif a medrus | | | |

**Opsiwn: Datblygu ardal chwarae ar y safle**

| Materion i'w hystyried | Manteision (+1) | Anfanteision (-2) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Mae cyllideb ar gael i ymateb i anghenion chwarae plant o bob oed | | | |
| Mae capasiti i ymgysylltu gyda phlant a thrigolion | | | |
| Mae lle i adeiladu cyfleusterau | | | |
| Mae lle ar gyfer ardal(oedd) chwarae'r tu allan | | | |
| Mae lle ar gyfer gofod chwarae ar bob plot | | | |
| Beth yw barn y gymuned? | | | |
| Beth yw'r effaith ar gysylltiadau cymunedol? | | | |
| Pa sgiliau sydd ar gael o fewn y gymuned? | | | |

**Opsiwn: Cynnig integreiddio gyda'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes**

| Materion i'w hystyried | Manteision (+1) | Anfanteision (-2) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Mae'n hawdd i'r plant gyrraedd/ teithio i'r ddarpariaeth | | | |
| Mae'r ddarpariaeth yn cael ei staffio gan weithwyr chwarae sy'n ddiwylliannol ymwybodol | | | |
| Mae'r plant yn mynegi awydd i fynychu | | | |
| Mae'r plant yn dysgu am amrywiaeth diwylliannol | | | |
| Nid yw'r ddarpariaeth yn diriogaethol o ran natur | | | |
| Beth yw'r effaith ar y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes? | | | |

| Opsiwn: Ystyried cyfuniad o ddarpariaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Materion i'w hystyried** | **Manteision (+1)** | **Anfanteision (-2)** | **Cyfanswm** |
| Mae dealltwriaeth am anghenion a hoff ddewisiadau chwarae'r boblogaeth plant | | | |
| Mae gan y plant amrywiaeth o gyfleoedd i ddewis ohonynt | | | |

# Adnodd 3: Dulliau cyfranogi ac ymgysylltu gyda'r plant

Gall cyfranogi ddigwydd mewn nifer o ffyrdd:

**Gweithdai** – bydd hwyluso gweithdai gyda'r plant gan ddefnyddio gweithgareddau chwareus yn eu galluogi i deimlo eu bod yn cyfranogi'n weithredol, yn datblygu eu dealltwriaeth am y prosiect ac yn eu helpu i gynhyrchu syniadau ar gyfer y gofod. Gallai hyn gynnwys gemau corfforol, gweithgareddau celf a chrefft, mapio, dweud straeon, trafodaethau grwpiau bychan, a cyfweliadau un-i-un neu gyda chyfoedion.

**Arsylwadau** – mae darparu cyfleoedd i blant chwarae mewn ardal a gwneud arsylwadau o'r ymddygiadau chwarae y maent yn eu ffafrio yn rhoi syniad da o'r hyn mae plant yn hoffi ei wneud heb eu tynnu oddi wrth eu chwarae.

**Archwiliadau chwarae** – mae defnyddio, neu addasu'r adnodd archwiliad man chwarae a geir yn y pecyn cymorth *Creu mannau chwarae hygyrch* a restrir ar dudalen 6 yn darparu tystiolaeth o sut y mae plant eisoes yn defnyddio gofod penodol a gellir defnyddio'r cynllun gweithredu i lunio cynllun sy'n seiliedig ar dystiolaeth o arsylwadau ynghylch sut y gellid datblygu'r gofod.

**Adeiladu, plannu, clirio** – os oes elfennau o'r gofod chwarae y gellir eu datblygu gan y gymuned, gall cael y plant ac arddegwyr i gymryd rhan yn y gwaith eu helpu i siapio'r gofod a rhoi ymdeimlad o berchnogaeth iddyn nhw. Mae plannu coed/bylbiau, tyllu, paentio, adeiladu a chlirio sbwriel yn ffyrdd gwych o gynnwys y gymuned yn natblygiad y gofod chwarae a chynyddu ymwybyddiaeth am y datblygiadau sydd ar y gweill. Mae'n bosibl mai'n ystod y mathau hyn o weithgareddau cymunedol y bydd arddegwyr yn lleisio eu syniadau'n ystod sgyrsiau anffurfiol – cofiwch sicrhau bod gennych ddull ar gyfer cofnodi'r wybodaeth yma.

**Caniatáu ar gyfer newid fel rhan o'r broses ddylunio** – mae plant ac arddegwyr yn hoffi gallu newid eu hamgylchedd. Dyma pam y bydd plant yn adeiladu cuddfannau ac yna'n eu chwalu, gan eu haddasu'n barhaus. Mae darparu elfennau o ofod chwarae y gall plant barhau i'w newid yn sicrhau y gallant gael rôl uniongyrchol yn esblygiad y gofod dros amser. Gallai hyn fod yn ardal y caniateir iddi dyfu'n wyllt sydd at ddefnydd y plant yn unig neu'n lwybr pridd beiciau y gallant ei addasu.

**Holiaduron** – gall targedu holiaduron i grŵp penodol o bobl fod yn ffordd dda o sicrhau nifer rhesymol o ymatebion. Ceir enghreifftiau o gwestiynau, y gellir eu haddasu i fod yn briodol, mewn holiaduron ym mhecynnau cymorth Chwarae Cymru a restrir ar dudalen 6. Fel gyda phob dull cyfranogi, mae angen i'r cwestiynau a ofynnir fod yn agored ond yn ddigon penodol fel y gellir osgoi ymatebion afrealistig. Gall canlyniadau'r holiaduron helpu i sicrhau bod y gofod chwarae'n darparu ar gyfer yr ystod eang o bethau y mae plant yn hoffi eu gwneud – yn rhyfedd iawn fydd pob ymateb ddim yn ymwneud â siglenni a llithrennau!

## Hwyluso ymgysylltiad

Mae'n hanfodol i hwyluswyr gyflwyno eu hunain i deuluoedd ar y safle cyn cynnal unrhyw waith arsylwi neu ymgysylltu gyda phlant ac arddegwyr. Bydd hyn yn ein helpu i fod yn gwbl eglur ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r buddiannau yr hyderwn y bydd y gwaith yma'n ei sicrhau ar gyfer y gymuned. O ran safleoedd sy'n bodoli eisoes, mae'n bwysig cynnwys y plant a'r arddegwyr sy'n byw yno. Gyda safleoedd newydd, mae'n bosibl y bydd tîm addysg yr awdurdod lleol yn darparu mecanwaith ar gyfer ymgysylltu. Gall plant ac arddegwyr helpu i:

- gynnal archwiliad o sut, ac yn bwysicach fyth pa rannau o'r safle sy'n cael eu defnyddio eisoes – y plant fydd yn y sefyllfa orau i ddynodi'r potensial ar gyfer chwarae
- dweud wrthym ble arall y bydd y plant ac arddegwyr yn treulio eu hamser yn y gymuned leol oddi ar y safle, a'r hyn fyddant yn ei wneud yno – bydd hyn yn ein helpu i gynllunio blaenoriaethau
- dynodi'r llwybrau y byddant yn eu defnyddio i deithio i ac o'r mannau y byddant yn chwarae, neu os ydynt yn chwarae oddi ar y safle, pa gludiant y byddant yn ei ddefnyddio
- dynodi'r rhwystrau allai atal mwy o ddefnydd o gyfleusterau oddi ar y safle, fel ffyrdd a nentydd yn ogystal â ffiniau cymunedol, bylchau diwylliannol ac ethnig canfyddedig.

# Adnodd 4: Archwiliadau chwarae

Efallai y byddai o gymorth i hwyluswyr gyflwyno eu hunain i deuluoedd ar y safle cyn cynnal unrhyw waith arsylwi neu ymgysylltu gyda'r plant a'r arddegwyr. Bydd hyn yn ein helpu i fod yn gwbl glir ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r buddiannau yr hyderwn y bydd y gwaith yma'n ei sicrhau ar gyfer y gymuned.

Er mwyn deall yr hyn ellid ei gynnig, mae'n bwysig ystyried y gymuned leol a'r amgylchedd y mae plant yn byw ynddo. O gael amser, lle a chaniatâd i chwarae, bydd plant yn naturiol yn dewis chwarae ble bynnag a phryd bynnag y gallant. Unwaith ein bod yn gwybod yr hyn sydd ar gael ar gyfer y plant, gellir ei asesu yn erbyn sut y mae plant angen chwarae.

Mae archwiliadau chwarae'n darparu proses ar gyfer mesur yn effeithlon os yw anghenion chwarae plant yn cael eu cyflawni o mewn cymuned.

**Chwarae y tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar**

Yn y pecyn cymorth hwn mae gennym gasgliad o adnoddau a thempledi i gefnogi archwiliadau chwarae ac i helpu i ddynodi'r potensial i ofod hybu chwarae, yn cynnwys:

- Plant fel archwilwyr
- Rhestr wirio archwiliad gofod chwarae
- Templed archwiliad gofod chwarae.




**Dyma oedd gan un grŵp o blant sy'n byw ar safle Sipsiwn a Theithwyr i'w ddweud am yr hyn sy'n dda a ddim cystal am eu cyfleoedd i chwarae.**

**Beth sy'n dda am y gofod ble byddi di'n chwarae ar neu ger dy safle?**

'Rydan ni gyd yn byw yn agos at ein gilydd.'

'Mae fy ffrindiau i gyd yn byw yn ac yn dod o fy nghymuned i.'

'Ry'n ni'n hoffi'r caban cymunedol, ry'n ni'n gwneud rhywfaint o weithgareddau ac yn dysgu yno ychydig o weithiau'r wythnos.'

'Fe allwn ni archwilio'r goedwig a'r gofod y tu ôl i'r safle.'

**Beth sy'n dy atal rhag chwarae?**

- Diffyg gofodau a mannau i chwarae
- Offer wedi torri o amgylch y safle
- Hen geir wedi eu gadael
- Sbwriel
- Baw cŵn
- Llygod mawr yn rhedeg o gwmpas.

# Adnodd 5: Gweithio gyda rhieni a theuluoedd

Mae traddodiadau diwylliannol yn hynod o bwysig i Sipsiwn a Theithwyr a gall deall rhai o'r rhain gyfrannu llawer tuag at ffurfio perthynas barchus, llawn ymddiriedaeth.

Mae gan wahanol grwpiau o Sipsiwn a Theithwyr wahanol draddodiadau. Mae'r elfennau sy'n tueddu i fod yn bwysig i bawb yn cynnwys:

- y teulu
- gofalu am blant, yr henoed neu'r sâl
- glanweithdra
- crefydd
- teithio.

Fel arfer bydd Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn ffyrdd annibynnol a hunangynhaliol, ble y byddant yn gofalu am eu hunain. Yn aml, bydd gan ddynion a menywod wahanol rolau, gyda menywod yn gofalu am y cartref a dynion yn mynd allan i weithio, yn aml yn eu busnesau eu hunain.

Gall darparwyr chwarae a'r blynyddoedd cynnar eu cael eu hunain yn gweithio gydag ystod oedran eang iawn o blant, efallai gyda nifer o frodyr a chwiorydd neu grwpiau o blant ar yr un pryd. Gall hyn helpu i gefnogi cyfranogiad rhieni neu aelodau eraill o'r teulu a helpu i dawelu eu meddyliau.

### Pethau i'w hystyried tra'n ymgysylltu â rhieni a theuluoedd

Cofiwch ddangos parch tuag at unrhyw achlysuron arbennig, profedigaethau a theithio, a gofynnwch i'r teuluoedd os hoffen nhw i'r ddarpariaeth chwarae barhau yn ystod yr adegau hyn.

Efallai bod yr ardal yn ddieithr i'r teulu, efallai na fydd gan rieni unrhyw wybodaeth leol am wasanaethau ac y byddant yn cyrraedd heb rwydwaith cefnogol neu ymdeimlad hyderus o berthyn yn y gymuned.

Efallai na fydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n rhieni wedi profi gwasanaethau chwarae neu'r blynyddoedd cynnar eu hunain ac efallai na fyddan nhw'n gyfarwydd neu'n gyfforddus gydag o.

Mae'n bosibl y bydd gan Sipsiwn a Theithwyr sy'n rhieni bryderon am y posibilrwydd y bydd eu plant yn profi rhagfarn neu hiliaeth. Mae'n bosibl y byddant yn bryderus ynghylch agweddau rhieni eraill a gweithwyr proffesiynol. Gallai'r pryderon hyn gael eu dwysáu os oes gan rieni atgofion anhapus am eu profiadau chwarae eu hunain.

Efallai y bydd rhai rhieni'n teimlo nad ydyn nhw'n cyflawni eu rôl trwy anfon eu plentyn i leoliad chwarae neu flynyddoedd cynnar.

Weithiau, bydd rolau rhyw traddodiadol yn dylanwadu ar os yw rhieni'n cefnogi chwarae eu plant ai peidio. Efallai y bydd mamau am gadw plentyn gartref am gyn hired â phosibl. Gall hyn gael ei ddylanwadu gan ymdeimlad o hunaniaeth gadarnhaol o fewn eu cymuned sy'n gysylltiedig â bod yn fam. Weithiau, bydd yn well gan dadau i'w bechgyn beidio mynychu lleoliadau chwarae, ond i aros gyda nhw er mwyn dysgu 'rôl ddiwylliannol'.

# Adnodd 6: Gweithio gyda'r gymuned ehangach

Wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, efallai y bydd nifer o unigolion a grwpiau'n dod ynghyd mewn grŵp i gynllunio'r trefniadau.

Mae'n werth cysylltu gyda sefydliadau eraill yn yr ardal, yn cynnwys adrannau eraill o'r awdurdod lleol, i ddynodi pa ddarpariaeth chwarae arall allai fod ar gael yn lleol a pha gymorth y gallent ei gynnig.

Mae gan y mwyafrif o awdurdodau lleol swyddog chwarae a cheir mudiadau chwarae gwirfoddol ar draws Cymru. Fe allant, o bosibl, helpu gyda chyngor am yr ystod o ddarpariaeth chwarae y gellir ei datblygu a'i hyrwyddo'n defnyddio'r safle sy'n bodoli eisoes. Efallai y gallent gynnig sesiynau chwarae tymor byr, wedi eu staffio.

Mae'n bosibl y gallai'r rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau gwaith chwarae wedi eu staffio, yn benodol, gynnig cyngor ar bryderon sy'n ymwneud ag ofnau ynghylch difrod a fandaliaeth. Efallai y gallent hefyd helpu i drefnu digwyddiad chwarae ar y safle i hyrwyddo chwarae ac i ateb cwestiynau allai godi.

Efallai y byddai cynnal digwyddiad cymunedol yn ffordd dda i helpu rhieni ac eraill i ddeall yr hyn sy'n cael ei gynllunio a sut y gallant helpu. Yma, gellir rhannu syniadau a gellir trafod pa ofodau fydd ar gael i'r plant ac arddegwyr ar gyfer eu chwarae rhydd.

Gallai hyn hefyd gynnig cyfle da i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae i rieni a'r gymuned ehangach a thawelu unrhyw ofnau allai fod ganddynt.

**Gwneud digwyddiadau cymunedol yn chwareus**

Mae'r daflen wybodaeth hon yn anelu i helpu i wneud digwyddiadau cymunedol yn fwy chwareus ar gyfer plant ac arddegwyr. Mae hefyd yn cynnig syniadau am sut i greu profiadau chwareus, ynghyd â syniadau chwarae rhad, syml.

Mae digwyddiadau cymunedol yn gyfleoedd delfrydol i gwrdd â phobl eraill mewn ffordd hwyliog a chyfeillgar – ac i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae. Mae hyn yn helpu rhieni i ennill hyder i ganiatáu i'w plant chwarae'r tu allan.




**Pan ofynnwyd iddyn nhw sut y gellid gwella eu cyfleoedd i chwarae, dyma oedd gan y plant i'w ddweud:**

- Cael dillad glaw da ar gyfer tywydd gwael
- Adeiladu lloches ar gyfer cymdeithasu
- Clirio a gwaredu baw cŵn
- Cysylltu gyda gwasanaeth difa pla
- Cael hwb cymunedol mwy o faint ar gyfer dysgu gyda chyfleusterau cegin
- Cael gofod i chwarae sy'n berchen i ni.

# Adnodd 7: Archwiliad sgiliau

Edrychwch ar y sgiliau yn y grŵp. A oes unrhyw fylchau mewn gwybodaeth ble y gallech fod angen gofyn am gymorth arbenigol? Efallai y bydd angen gofyn am gefnogaeth i lenwi bylchau mewn sgiliau penodol.

## Templed archwiliad sgiliau

| Y sgìl sydd ei hangen | Pwy sy'n meddu ar y sgìl yma? |
|---|---|
| Arweinyddiaeth | |
| Goruchwylio gweithwyr | |
| Adeiladu tîm | |
| Rheoli amser | |
| Rheoli gwrthdaro | |
| Rheoli newid | |
| Rheoli prosiect | |
| Monitro gwaith | |
| Gwerthuso gwaith | |
| Sgiliau gweinyddol | |
| Gwybodaeth chwarae arbenigol | |
| Gwybodaeth gofal plant arbenigol | |
| Sgiliau cyhoeddusrwydd | |
| Ysgrifennu adroddiadau | |
| Trefnu digwyddiadau | |
| Codi arian | |
| Asesu/rheoli risg | |
| Cynllunio a dylunio | |
| Adeiladu | |
| Tirlunio | |
| Cynnal a chadw ac atgyweirio | |

# Adnodd 8: Polisi chwarae safle

Bydd mabwysiadu polisi chwarae safle yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ddarparu cyfleoedd cyfoethog i blant ac arddegwyr chwarae a chymdeithasu. Bydd polisi chwarae'n datgan y gwerth y mae'r gymuned yn ei osod ar blant ac arddegwyr.

## Templed o bolisi chwarae safle

Mae'r safle hwn yn cydnabod pwysigrwydd gweld pob plentyn sy'n byw yma, ac unrhyw un sy'n ymweld â nhw, yn cael digon o amser a mannau da i chwarae'n rhydd fel rhan o'u diwrnod.

I blant, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Mae chwarae'n cyfrannu at iechyd, lles a hapusrwydd plant, yn ogystal â'u dysg a'u gallu i ddysgu. Fydd rhai plant ond yn cael cyfle i chwarae gyda'u ffrindiau ar y safle. Yn bwysicaf oll, mae chwarae'n cyfrannu at allu plant i ffynnu a goroesi.

Rydym yn credu y gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol iawn i fywydau plant trwy werthfawrogi eu hysfa a'u hawydd i chwarae a darparu ar gyfer ystod eang o gyfleoedd chwarae ar y safle.

Mae'r safle hwn yn cydnabod y bydd plant yn naturiol yn creu a chwilio am sefyllfaoedd heriol. Tra'n gwneud y gorau o'u chwarae, mae'n bosibl y caiff rhai plant ddamweiniau neu y byddant yn baeddu, gwlychu neu gael siom. Rydym yn cydnabod bod rhaid i unrhyw risg posibl o niwed i blant gael ei gydbwyso gyda'r potensial am les allai godi o'u gweld yn cymryd rhan mewn ffurf benodol o chwarae. Byddwn yn gwneud ein gorau i osgoi gweld plant yn dioddef niwed corfforol neu emosiynol difrifol trwy reoli'r cyfleoedd chwarae y byddwn yn eu darparu'n ofalus.

Mae'r safle hwn yn credu bod agwedd oedolion tuag at, a'u dealltwriaeth o, ymddygiad chwarae plant yn cael effaith sylweddol ar ansawdd y cyfleoedd chwarae gaiff eu cynnig yn, ac oddi ar, y safle.

Chwarae Cymru
Play Wales

ISBN: 978-1-914361-31-9

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen gofrestredig, rhif 1068926

© Chwarae Cymru

Rhagfyr 2025